Cyngor Cymuned **BETWS** Community Council

Angela Brown
Clerc i'r Cyngor

Golwg Y Bryn
Heol Capel Ifan
Pontyberem
Sir Gaerfyrddin
SA15 5HF

Ffôn: 01269 870558

Cyfeiriad e-bost:
betwscommunitycouncil@hotmail.co.uk

Angela Brown
Clerk to the Council

Golwg Y Bryn
Capel Ifan Road
Pontyberem
Carmarthenshire
SA15 5HF

Tel: 01269 870558

Email Address:
betwscommunitycouncil@hotmail.co.uk

Dyddiad 7fed Gorffennaf 2022

HYSBYSIAD O GYFARFOD MISOL

Cynhelir Cyfarfod Misol y Cyngor Cymuned fel Cyfarfod Hybrid yng **Nghlwb Rygbi'r Betws** a rhithiol ar **Starleaf** ar nos Fercher 13eg Gorffennaf 2022 am 7:00pm.

Cynhelir y cyfarfod o bell yn unol â darpariaethau Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Bydd unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno mynychu'r cyfarfod fel gwyliwr neu sydd â chwestiynau i'w gofyn i'r Cynghorwyr yn cysylltu â'r Clerc er mwyn i hyn allu digwydd ac i ddilyn y gweithdrefnau cywir.

AGENDA

1. Cwestiynau/Sylwadau Cyhoeddus
2. Ymddiheuriadau (i'w rhoi i'r Clerc cyn y cyfarfod).
3. Ffigurau Trosedd Misol Heddlu Dyfed Powys ar gyfer Betws ar gyfer Ebrill 2022
4. Derbyn datganiadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol gan Gynghorwyr ar faterion i'w hystyried yn y cyfarfod.
5. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y Cyfarfod Misol a gynhaliwyd ar 8fed Mehefin 2022.
6. Adroddiad Cynghorydd Sir.
7. Taliadau/Anfonebau a Dderbyniwyd/Ceisiadau am Roddion/Derbyniwyd
a) Anfonebau
b) Cytuno i wneud taliadau i'r Clerc ym mis Awst gan nad oes cyfarfod
c) Adnewyddu yswiriant Zurich a phrisio offer
d) Anfonebau Prosiect Cae Chwarae Maescware
e) Hawliadau TAW
f) Pensiwn Clerc – i drafod ymrestru i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn unol â'r contract
8. Ceisiadau Cynllunio –

a) Dim hyd at 7fed Gorffennaf 2022
b) I drafod os oes unrhyw Gynghorwyr yn dymuno cael hyfforddiant pellach ar gynllunio mae yna gwmni o'r enw Cymorth Cynllunio sy'n darparu hyfforddiant petaech yn dymuno mynychu'r cwrs hyfforddi nesaf sydd ar gael.
9. Gohebiaeth/Materion er Gwybodaeth/Gweithredu (e-byst yn cael eu hanfon at aelodau)
a) Cylchlythyr Ystadau Cymru 6ed rhifyn, 15/6/22 (e-bost wedi ei anfon 17/6/2022)
b) Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 (e-bost wedi'i anfon 7/7/2022)
10. Gweithredu'r cyfeiriadau e-bost penodol i Gynghorwyr newydd a anfonwyd fel y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol
11. Ystyried sut i roi cyhoeddusrwydd i waith y Cyngor Cymuned a phenderfynu ar y llun i'w ddefnyddio ar y wefan ynghyd â gwybodaeth am bob cynghorydd – Cyng Stacey
12. Ystyried cais a dderbyniwyd ynglŷn â phlannu coed Ywen ym Mharc Betws (gweler y cais amgaeedig e-bost 15/6/2022 a 7/7/2022).
13. Adborth gan Bwyllgorau (gellir gweld holl gofnodion Cyfarfodydd y Pwyllgor ar Wefan y Cyngor Cymuned lle mae cofnodion Cyfarfodydd y Cyngor Llawn hefyd ar gael):
Pwyllgor Maes Hamdden -
a) Materion rheoli cŵn ym Mharc Betws (Warden Cŵn/Digwyddiad 11/6/2022 wedi'i adrodd i'r heddlu)/Ystyried arwyddion ychwanegol ar gyfer y parc.
b) Prosiect Ystlumod Sir Gaerfyrddin – Cyng A Williams
c) Prosiect Parc Betws – diweddariad Cyng M Jones
ch) Canlyniadau Arolwg Coed ar gyfer Meysydd Chwarae Parc Betws, Heol y Felin a Maescware
d)Prosiect Cae Chwarae Maescware – diweddariad Cyng L Phillips
dd) Ystyried costau atgyweirio meysydd chwarae Heol y Felin a Maescware
e)Sefydlu calendr o gyfarfodydd pwyllgor – Cyng Stacey

Yr eiddoch yn gywir

Clerc i'r cyngor